Braf oedd cael croesawu chwech disgybl newydd ar ddechrau'r tymor. Y mae Thomas Booth, Nicholas Foley, Gwion Lewis, David Rhodri Jones, Kerri Rhian Evans a Katherine Hughes yn hapus iawn yn ein plith. Hyfryd hefyd yw gweld y nifer ar y cofrestr yn cynyddu. Y mae ar ddechrau'r tymor hwn fwy o blant yn yr ysgol nag a fu ers blynyddoedd lawer. Dyna'r rheswm wrth gwrs dros i ni gael caban symudol yn ystod gwyliau'r haf ac erbyn hyn mae Mr Jones a'i ddosbarth wedi cynefino â'r adeilad newydd. Balch ydym hefyd o gael croesawu Mrs Ll. Williams i'n plith. Y hi'n awr sydd â gofal y plant ieuangaf.

Ar ddechrau'r tymor cawsom gwmni Miss Helen Edwards a Miss Jane Rosser a oedd yma'n gwneud eu hymarfer dysgu. Bu'r ddwy'n weithgar iawn ac heb os bydd llwyddiant eto'n eu dilyn.

Yn anffodus mae Mrs Eirian Morgan gartref yn sâl ond da yw deall ei bod yn teimlo'n well. Rhaid diolch i Mrs N. Collins a Mrs D. Ralphs am ein cynorthwyo yn absenoldeb Mrs Morgan. Y mae Mrs C. M. James hefyd yn absennol o'r gegin ond deallir ei bod hithau ar wellhad. Croeso cynnes i Mrs M. Brickley sydd wedi dod yma i lenwi'r bwlch dros-dro.

Dymunwn yn dda i Kay Smith a Helen Sutherland a ddewiswyd i chwarae'n y gerddorfa.

Bu pump o'r plant yn y Gwersyll yn Llangrannog ddechrau'r mis a chael hwyl arbennig yno.

Ni chawsom yr Ŵyl Ddiolchgarwch arferol y flwyddyn hon ond trefnwyd cornel o addoli ac allor ym mhob ystafell. Teimlem ei bod yn bwysig inni gyd-gofio bod angen diolch yn wastadol ac nid ymneilltuo i un ystafell i gynnal gwasanaeth arbennig o ddiolch am rhyw awr neu fwy. Bu plant pob dosbarth yn ysgrifennu gweddïau ac yn cyfansoddi emynau a bu'r arbrawf yn llwyddiant.

Hydref 1981